

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mai 14, 2024 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Dewis Swyddogion

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Simon Evans

Is Gadeirydd: Gareth Ellis

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams

Neuadd Bentref Bontddu (1): Llinos Rowlands

Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands ac Eleri Jones

Un Llais Cymru (2): Simon Evans a Gareth Ellis

a. Anfonodd (12/5/2024) Henry nodyn i Simon (Cadeirydd), Elfed a Geraint yn gofyn a fydd yn iawn iddo barhau defnyddio ei enw fel Clerc i gwblhau yr archwiliad i Archwilio Cymru heb fynd ar draws trefniadau Lowri Roberts.

Cafwyd wybod gan Geraint bod hyn yn iawn.

Llythyr (25/4/2024) oddi wrth Geraint yn rhoi gwybod nid yw Lowri Roberts am dderbyn y swydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

3. Datgan diddordeb:

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 9, 2024

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 19, 2024

Eitem 8.c. Llythyr (11/4/2024) oddi wrth y Parc ynglŷn â chais cynllunio NP5/65/256A. Dymchwel gwesty a ddifrodwyd gan dân a chodi 8 (4 fforddiadwy) tŷ tri llawr. Bontddu Hall Hotel, Bontddu.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Maent angen gwybod pa wybodaeth rydym ei angen ar y cais. (Ar y cais gwreiddiol rhoddwyd gwybod iddynt rydym yn 'cefnogi'r cynllun mewn egwyddor yn unig oherwydd mae angen fwy o wybodaeth ar y cais, er engraifft, lle bydd ceir yn cael eu parcio gyda'r tai ddim yn cynwys garej'.

Cafwyd gwybod (15/4/2024) gan Delyth fydd y cais yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad nesaf. Bwriedir ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod eu cyfarfod ar y 22 o Fai.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyrau (17/4/2024 a 18/4/2024) oddi wrth Mr Geraint Lewis, Cynllunwyr Pensaerniol yn rhoi gwybod beth sydd am ei wneud ar y safle ac i ni roi manylion o'r cynllunio ar ein gwefan. Amgáu mae 'Pre Application Community Consultation Report'.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

Llythyr (30/4/2024) oddi wrth y Parc. Maent angen gwybod y wybodaeth pellach rydym ei angen.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau gyda nodyn yn rhoi gwybod y ddau benderfyniad rhoddwyd i'r Parc.

Llythyr (3/5/2024) oddi wrth Elfed yn amau ein penderfynwyd i roi gwybod i'r Parc ein dymuniad i gael gwybodaeth ychwanegol.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

Nodyn (8/5/2024) gan Delyth i'r aelodau yn holi pryd cafodd Bontddu Hall ei gau. Y Parc angen gwybod.

Eitem 9.a. Llythyr ateb (15/3/2024) oddi wrth Peiriannydd Prosiect, Swyddfa'r Cyngor, Pwllheli ynglŷn â chael lloches fws newydd wrth fynedfa i Bro Cymer (gweler Eitem 11.d. yn Cofnodion Chwefror 13, 2024) . Mae'n rhoi gwybod maent yn ystyried:

1. Gosod lloches bws newydd lle mae'r fainc wedi ei osod. Y teip o loches bydd yn cael ei osod yw 'Principle 2 bay Double Front Entry' (mae manylion gyda'r llythyr.). Maent yn holi os mae angen gosod y fainc ar safle arall.

2. Mae'r lloches bws presenol ddim yn addas o ran iechyd a diogelwch ac felly maent yn bwriadu gosod lloches bws newydd yn ei le. Y teip o loches sy'n addas i'r safle yw 'Cantilever 2 Bay gyda 3/4 Ends' (mae manylion gyda'r llythyr). Maent yn holi os mae gan y Cyngor Cymuned unrhyw ddefnydd i'r llochesi bws presenol.

Wedi'r gwaith cael ei gwblhau y Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am y llochesi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 4. Eitem 5.e. Llythyr (19/4/2023) oddi wrth Mr Pike yn holi am gopi o gyfrifon y cyngor fel gofynnodd yn 23/2/2024.

Rhodddwyd gwybod iddo fod dogfennau'r Cyngor yn cael eu paratoi i'w archwilio, ac wedi cwblhau'r gwaith bydd cyfle iddo archwilio'r dogfennau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 4. Eitem 7.a. Gofynnwyd i'r contractwyr anfon eu prisiau cyn 11 Mai.

Nid yw Brenda Parsons am gynig am y gwaith.

6. Materion Ariannol

a. Llythyr (16/4/2024) a dogfennau polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2024 i 31/5/2025. Y swm i'w adnewyddu yw £610.35. (Taliad flwyddyn ddiwethaf oedd £598.05).

b. Bil (20/3/2024) am £1,874.40 oddi wrth Sion Thomas (trwy law Geraint) am godi ffens wrth hen bont Llanelltyd.

Penderfynwyd talu'r bil (20/4/2024). Roedd y bil yma yn anisgwyl.

c. Llythyr (30/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen Datblygu Ymarfer sy'n ymwneud â Lwfansau Aelodau 2024/2025. Amgáu hefyd mae ffurflen ar gyfer Aelodau nad ydynt yn dymuno derbyn y taliadau.

ch. Anfonwyd copi o 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanelltyd 2023-2024' i'r aelodau.

d. Balans yn y banc ar 29/4/2024: £6,598.01.

7. Archwilio

- a. Mae angen cymeradwyo y datganiadau cyfrifeg a'r Datgan Llywodraethu Blynyddol, sef y Ffurflen Flynnyddol ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Mae angen i'r Cadeirydd arwyddo y ffurflen.
- b. Llythyr (23/4/2024) oddi wrth Archwilio Cymru yn egluro i'r cynghorau pam mae angen archwiliad llawn ar gyfer 2023-24 (mae hyn oherwydd ymoliadau cafwyd gan gynghorau). Mae amryw o gynghorau ddim wedi cyflwyno cyfrifon 2020-21 i 2022-23.

8. Mynwent Llanelltyd

- a. Llythyr (30/4/2024) oddi wrth Comisiwn Rhyfel Beddi'r Gymanwlad yn holi os rydym yn ymwybodol o'r taliad £30 maent yn ei roi i ni bob tair blynedd tuag at ofalu am eu bedd yn y fynwent.

Rhodddwyd gwybod iddynt rydym yn ymwybodol o'r taliad ac rydym yn cynal a chadw'r fynwent ac yn gofalu am eu bedd. Mae enw arall sydd ar fedd teulu.

- b. Llythyr (3/5/2024) oddi wrth Ms Tina Edwards yn holi am gladdedigaeth i ei chwaer.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau a chytunodd Geraint i ddelio gyda'r mater.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- a. Cais cynllunio NP5/65/330E. Diwygiad Ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP5/65/330C dyddiedig 01/06/2023 (Mathau o cladin allannol). Hafod Fach, Llanelltyd.

Cefnogwyd y cais ar 12/7/2022.

- b. Llythyr (29/4/2024) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd am sesiwn bydd ar 7/6/2024 yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau am 5.30 – 7.30yh i gael trafodaeth ar Cynlluniau Adfywio lleol 'Ardal Ni'. Amgáu mae dogfen 'Fframwaith Adfywio Ardal Ni.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

10. Gohebiaeth

- a. Cafwyd (10/4/2024) galwad ffôn oddi wrth Mr Meirion Jones, Cwm Mynach yn rhoi gwybod bod cwter wedi cau ar ochr ffordd ac oherwydd yn gwneud llanast wrth fynedfa i'w gau.

Rhodddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

- b. Llythyr (16/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys hyfforddiant bydd yn Ebrill, Mai a Mehefin.

c. Llythyr (23/4/2024) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae dogfen 'Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod'. Cafodd y ddogfen ei thrafod yn y Senedd ar sut i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn yr hawl i addysg cyfrwng Cymraeg, ynhyd â'r heriau ymarferol o gyflawni hynny.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (23/4/2023) oddi wrth Clerc Cyngor Tref Nefyn ynglŷn y bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan. Mae'r Cyngor yn gofyn am ein cefnogaeth ar y mater drwy anfon llythyr i Dyfrig Siencyn i wrthwynebu'r bwriad. Amgáu mae llythyr anfonwyd i Dyfrig Siencyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr ateb (7/5/2024) oddi wrth Cyngorydd Dyfrig Siencyn yn egluro yr angen am gerbydau trydan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (23/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys hyfforddiant sydd ar gael yn rhad ac am ddim.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (24/4/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu contract cyflogaeth newydd ar gyfer staff.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (25/4/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith arwisgo ar gyffordd A470 – Fferm Vanner ac ar gyffordd Fferm Vanner i gyffordd ffordd Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (1/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 8/5/2024 am 7.00yh yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau. Amgau mae Agenda a Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd ar 4/1/2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (7/5/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn atgoffa am y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (3/5/2025) oddi wrth Elusen Ambiwylans Cymru yn rhoi gwybodaeth am gyhoeddiad cafodd ei wneud i wella gwasanaeth bydd Elusen Ambiwylans Cymru yn ei roi mewn sefyllfa lle fydd argyfwng ar hyd y wlad. Amgáu mae dogfen yn rhoi fwy o wybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (7/5/2024) oddi wrth Uned Iaith a Chraffu, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag arolwg Iaith Cymraeg mae Prifysgol Bangor yn ei wneud.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

11. Bioamrywiaeth

a. Anfonwyd (19/4/2024) llythyr i'r aelodau yn gofyn am unrhyw ffurflenni cais a gwybodaeth arall sydd wedi ei anfon i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gael grant i wneud gwaith Bioamrywiaeth.

Ni dderbyniodd gwybodaeth.

12. Adroddiad Cynghorvdd Delyth Lloyd Griffiths

a. Cyflymder yn Llanelltyd

13. Materion Brys

a. Elfed angen trafod bin halen y Foel hefo Delyth a chytuno ar strategaeth.

Yn gywir,
H.M. Edwards